

# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH  
15 Ebrill 2014, Neuadd Talwrn  
am 7:30 y.h.

<b>YN BRESENNOL:</b> Y Cyngorwyr O Davies, M Lees, C McGregor, D Morgan, D Pritchard, W Vaughan, A Williams, G D Williams, W Williams, A Wyn	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b> Cyng D Roberts, D ap Rhobert, M Huws, N Roberts (Cyngor Sir)	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Vaughan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> - Cyng G D Williams mater 5.4
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18 Chwefror 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Gor-yrru Talwrn a Llangwyllog</b> - Darllenwyd adroddiad yn dilyn yr ymchwiliad yn Llangwyllog. Mae'r Cyngor wedi pasio y mater ymlaen at yr Heddlu. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir am y sefyllfa bresennol. Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb am gor-yrru yn Talwrn.
<b>4.2</b>	<b>Maes y Coed (torri coed)</b> - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud nad ydyn yn gweld peryg ar hyn o bryd
<b>4.3</b>	<b>Ysbwriel Talwrn</b> - Mae'r Cyngor Sir wedi clirio yr ysbwriel
<b>4.4</b>	<b>Ffosydd Slieve Donard/Penterfyn</b> - Mae'r Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith
<b>4.5</b>	<b>Polisi y Cyngor Sir (tyllau/ffosydd)</b> - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud bod y Cyngor yn cadarnhau bod yr Arolygydd Priffyrdd yn gwneud pob ymdrech i ymateb i dyllau peryglus cyn gynted ag sy'n bosibl
<b>4.6</b>	<b>Prisiau torri gwair y mynwentydd</b> - Dywedodd y Clerc bod y papur newydd angen £90 am hysbyseb. Mae'r Clerc wedi hysbysebu ar wefan y Cyngor a wedi derbyn un pris gan Gareth Hughes am £580 am dorri y ddwy fynwent am 2014 a 2015. Penderfynwyd derbyn y pris.
<b>4.7</b>	<b>Glendale (torri coed wrth myl Bryn Ffynnon)</b> - mae perchennog Bryn Ffynnon wedi gwneud y gwaith
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <b>20.05.14</b>

<b>5</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON</b>
	<b>Cynllunio</b>
<b>5.1</b>	23C307B cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Sarn, Maenaddwyn - mae'r Cyngor yn cefnogi y cais.
<b>5.2</b>	23C317 Cais llawn ar gyfer dymchwel y storfa presennol ynghyd a addasu ac ehangu yn Bodneithior, Talwrn - dim sylwadau arwahan i fydd yn bosib trin y ffordd fel rhan o'r datblygiad?
<b>5.3</b>	23C318 cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi ei gadw yn ol ar dir ger Graiglwyd, Capel Coch - dim sylwadau
<b>5.4</b>	23C268C Cais llawn i newid defnydd ac estyniad i'r adeilad allanol presennol i ffurfio annedd ynghyd a gosod uned trin carthion yn Uwch y Gors, Mynydd Bodafon - mae'r Cyngor yn cefnogi y cais
	<b>Cyllid</b>
<b>5.5</b>	Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol - gofynwyd i'r Clerc anfon y dogfen ymlaen at Cyng W Williams i'r pwyllgor maes chwarae cael ystyried y mater
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>6.1</b>	Pris torri gwair - gweler 4.6
<b>7</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
	Penderfynwyd talu y canlynnol: Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Wyn yn eilio:
<b>7.1</b>	Costau y Clerc £97.20
<b>7.2</b>	Anglesey Computer Solutions £520.00
<b>7.3</b>	H Hughes £66.40
<b>7.4</b>	H Hughes £36.40
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	<b>Ymddiheuridau am absenoldeb</b> - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor wedi methu cynnal cyfarfod mis diwethaf oherwyd nad oedd cworwm. Gofynwyd i pawb ymddiheuro os nad ydyn yn gallu bod yn bresennol. Bydd y Clerc wedyn yn gallu canslo'r cyfarfod
<b>8.2</b>	<b>CoRWM</b> - (Committee on Radioactive Waste Management) Dywedodd Cyng Morgan bydd y cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal nos lau 4 Medi 18:30 - 20:00 yn Tresysgawen. Bydd y cyfarfod "plenary" dydd Gwener 5 Medi 09:30 - 15:00. Gofynwyd i'r Clerc ail anfon yr ebost at yr aelodau a rhoi y mater ar yr agenda mis nesaf.
<b>8.3</b>	<b>Palmant</b> - Soniodd Cyng W Williams am dan y perygl i blant ysgol heb palmentydd yn y pentref. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod palmentydd o sgwar Talwrn hyd at gyferbyn a tai Cyngor ac o'r sgwar at Bodlondeb.
<b>8.4</b>	<b>Arwydd</b> - Dywedodd Cyng W Williams bod yr arwydd "araf" ger Halfway yn rhy uchel i fodurwyr eu gweld. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gostwng yr arwydd i'w wneud yn fwy gweladwy.
<b>8.5</b>	<b>Golau Stryd</b> - Mae lamp stryd rhif 7A (Talwrn) yn gyson ar. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b>
	<b>20.05.14</b>

8.6	<p><b>Gwasanaeth Bws</b> - dywedodd Cyng Lees bod amseroedd bysiau yn Talwrn wedi newid yn ddiweddar heb dim ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Mae'r bws cyntaf yn awr yn gadael Talwrn am 10, a'r bws olaf yn ol am 3 yn y prynhawn. mae hyn yn effeithio ar iechyd a lles ac yn gwneud pethau yn annodd fel engraifft, i gleifion i gyrraedd apwyntiadau. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir</p>
8.7	<p><b>Giat mochyn</b> - dywedodd Cyng McGregor bod y giat mochyn wedi torri ar y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd trwy mynwent Llanffinan. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir.</p>
8.8	<p><b>Cyng Ieuan Williams</b> - Mae'r Cyngor wedi derbyn cais gan Cynghorydd Ieuan Williams (ward Lligwy) i gael eu gwahodd i gyfarfodydd y Cyngor</p>
	<p><b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <span style="float: right;"><b>20.05.14</b></span></p>